Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

" Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Ebrill 2008 — Rhifyn 8

Yn y Rhifyn Hwn:

• Lansio Cynllun Beiciwr Modur yr Awdurdodau Lleol 2008 • Astudiaeth Dichonoldeb o Uwch-System Arwyddion Traffig a Rheoli Traffig • Hebryngwr Croesfan Ysgol y Flwyddyn yn y Fro • Yr Heddlu'n Taclo Gyrwyr Cyflym • Y Rhaglen Asesu Helmedau Diogelwch (SHARP) • Lansio System Fideo SCP • Diogelwch Bysiau Mini • Gyrwyr yn Dechrau Blino ar ôl Cwta 80 Munud • Pen-blwydd Cyntaf Cosbau Llymach am Ddefnyddio Ffonau Symudol • Cyngor Newydd ynghylch Tynnu Sylw Gyrwyr • Diogelwch Cerddwyr yn Ewrop • Goleuadau ar Geir yn ystod y dydd i fod yn Orfodol • "Cyclists and Lorries" – Ffilm sy'n Rhad ac am Ddim

Lansio Cynllun Beiciwr Modur yr Awdurdodau Lleol 2008

O heddiw ymlaen, bydd nifer o feicwyr modur sy'n byw yng Ngogledd Cymru yn cael cynnig dilyn cwrs dau ddiwrnod BikeSafe neu gwrs BikeSafe ac FBoS o dan adain Cynllun Beiciwr Modur Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru.

Beicwyr modur sy'n parhau i fod y defnyddwyr ffordd mwyaf agored i niwed yn y wlad. Ar gyfartaledd, dim ond 1% o'r holl ddefnyddwyr yw beicwyr modur, ond mae 20% o'r holl ddamweiniau ar ein ffyrdd yn ymwneud â beicwyr modur. Yn ystod 2007, roedd nifer o'r rhai a anafwyd yng Ngogledd Cymru wedi bod mewn damwain oddi fewn 10 milltir i'w cartref.
Mae Grwp Diogelwch Ffyrdd Gogledd Cymru yn pryderu am ddiogelwch y gymuned beicwyr modur a'r rhai a effeithir gan y sefyllfa. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r sgiliau sydd eu hangen i leihau anafiadau, mae'r Grwp wedi cytuno i ddarparu cyrsiau BikeSafe ac FBoS am ddim i nifer cyfyngedig o drigolion Gogledd Cymru sydd â thrwydded beicio modur llawn.
Mae BikeSafe yn strategaeth reoledig sefydledig sydd wedi datblygu o'r ymarfer gorau o gyfathrebu â'r gymuned beicwyr modur er mwyn annog sgiliau rheolaeth ffordd dda. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi buddsoddi llawer mewn BikeSafe, ac mae'n cael ei gydnabod fel arloeswr yn y maes trwy'r wlad. Ei nod yw datblygu ymwybyddiaeth y beicwyr o'r sefyllfa, pam y dylent gymryd cyfrifoldeb am yr agweddau ac ymddygiad addas, yr angen i gynyddu lefel eu sgiliau a sut allent wneud hynny.
Yn bwysig iawn, mae BikeSafe yn bodoli er mwyn pontio, ac i annog beicwyr i fanteisio ar adnoddau hyfforddi cymeradwy.

Meddai Dafydd Edwards, Cadeirydd Grwp Diogelwch Ffyrdd Gogledd Cymru, "Mae Cynllun Beiciwr Modur Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn arddangos ymarfer da trwy ddarparu gweithdai BikeSafe i nifer cyfyngedig o drigolion Gogledd Cymru."
Ychwanegodd, "Mae ymrwymiad Grwp Diogelwch Ffyrdd Gogledd Cymru i gynnig cymorth i'r gymuned feicio yn glir. Y rhai eraill a ddylai dderbyn cydnabyddiaeth am eu gwaith yn y maes yw'r sylwedyddion gwirfoddol sy'n cynorthwyo i drosglwyddo'r addysg hwn, y Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n cynnig cefnogaeth werthfawr gyda'r Fire Bike, ac FBoS sy'n rhoi adnoddau gwerthfawr i ddarparu cymorth cyntaf hanfodol."
Am fwy o wybodaeth, ewch i www.bikesafe.co.uk neu cysylltwch â Paul Cheshire, Cydlynydd BikeSafe ac FBoS Gogledd Cymru ar 07990 634234, neu paul.cheshire@nthwales.pnn.police.uk

Astudiaeth Dichonoldeb o Uwch-System Arwyddion Traffig a Rheoli Traffig

Mae adroddiad sydd newydd ei ryddhau yn astudio dichonoldeb, manteision a chostau estyn uwch-systemau arwyddion a rheoli traffig yn ehangach ar draws y rhwydwaith o draffyrdd.

Gallwch chi lwytho Advanced Motorway Signalling and Traffic Management Feasibility Study i lawr o Wefan yr Adran Drafnidiaeth.

Hebryngwr Croesfan Ysgol y Flwyddyn yn y Fro

Mae menyw sy'n defnyddio dwy rôl weithio gyda Chyngor Bro Morgannwg i hyrwyddo neges diogelwch ar y ffyrdd i blant ifanc wedi ennill Gwobr Hebryngwr Croesfan Ysgol y Flwyddyn gan yr awdurdod.

Yn ei ffordd dawel a dirodres, mae Alex Daw wedi helpu plant i groesi ffordd brysur Ham Lane East y tu allan i Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr ac Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr am bron i bum mlynedd. Ac mae hi hefyd yn gweithio fel goruchwylwraig cinio.

"Enillydd haeddiannol," meddai'r Cynghorydd Chris Williams, yr aelod o gabinet y Fro dros gynllunio a chludiant a chyflwynydd y seremoni wobrau flynyddol sy'n cydnabod parhad safonau uchel "menywod a dynion lolipop". Wrth ddiolch i'r "aelodau ymroddedig o'r gwasanaeth" am eu gwaith, dywedodd y Cynghorydd Williams: "Rwy'n sicr ein bod ni gyd yn sylweddoli pa mor bwysig ac, yn wir, pa mor anodd, yw eu dyletswyddau beunyddiol wrth sicrhau diogelwch y miloedd o gerddwyr sy'n croesi ffyrdd ledled y Fro.
"Er eu bod nhw'n gorfod wynebu tywydd dychrynllyd ar adegau, ac ymddygiad annisgwyl gan fodurwyr, byddan nhw'n cyflawni'r rôl honno'n eithriadol o broffesiynol ac â gwên bob amser."

Yr Heddlu'n Taclo Gyrwyr Cyflym

Mae Heddlu'r Gogledd yn defnyddio fan heddlu sydd wedi'i haddasu i daclo gyrwyr cyflym a gyrwyr sy'n creu niwsans.

Mae hen fan camera cyflymdra wedi'i haddasu yn null y sioe deledu Pimp My Ride, a hynny drwy roi stereo pwerus ynddi a'i pheintio mewn lliwiau trawiadol. Caiff y fan, a gafodd ei gweddnewid gyda chymorth cyflenwyr lleol, ei chymryd i ysgolion a cholegau. Dywedodd yr Heddlu fod hyn yn un o'r mentrau sydd wedi'u cynllunio i ddelio â pheryglon posibl, gan gynnwys goryrru.

Wrth ddadorchuddio'r fan ar ei flog, dywedodd Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu'r Gogledd, Clive Wolfendale, fod gormod o bobl ifanc yn trin eu ceir fel ychwanegiadau ffasiwn.
"Mae amryw o ganlyniadau anffodus wedi bod i'r ymddygiad hwn yn y Gogledd, gan gynnwys cryn gynnydd yn nifer y marwolaethau ar y ffyrdd ymhlith gyrwyr gwryw 17-25 oed yn ystod hanner cyntaf y degawd hwn," meddai.

"Oherwydd cyfres o farwolaethau trasig, fe roeson ni lawer iawn iawn o sylw i gynlluniau gorfodi ac addysgu, a'r canlyniad yw i nifer y marwolaethau yn y categori hwn ostwng yn ystod 2007."
Dywedodd Mr Wolfendale y byddai'r fan yn llawn dop o wybodaeth a chyngor i yrwyr ifanc a'i bod hi eisoes yn denu'r tyrfaoedd pan fydd hi'n ymddangos yn y gogledd.

Helpodd modurdai lleol yr heddlu i weddnewid y cerbyd. Arni, mae system gerddoriaeth drawiadol a sgrin deledu fawr. Mae ganddi hi hyd yn oed ei fideo ei hun ar YouTube.

Y Rhaglen Asesu Helmedau Diogelwch (SHARP)

SHARP yw'r cynllun newydd i ddiogelu helmedau beicwyr modur.
Er mwyn i feicwyr modur allu dewis helmedau mwy diogel, bydd SHARP, o wanwyn 2008 ymlaen, yn dweud wrthyn nhw pa lefel o amddiffyniad y bydd helmed yn ei chynnig. Bydd yn rhoi asesiad annibynnol i ddefnyddwyr yr helmedau a werthir ym Mhrydain o berfformiad diogelwch yr helmedau hynny. Bydd SHARP yn rhoi gradd i bob model o helmed i ddangos ei berfformiad mewn cyfres o brofion manwl ac yn rhoi rhwng 1 a 5 seren iddo. Cewch wybod rhagor ar wefan SHARP.

http://sharp.direct.gov.uk/

Lansio System Fideo SCP

Mae Routesafe wedi lansio system fideo newydd i gynyddu diogelwch hebryngwyr croesfannau ysgol, rhieni a phlant.

Dywed Routesafe fod ei fonitor croesfan ffordd yn cynyddu hyblygrwydd ac yn dadbersonoli casglu tystiolaeth fideo o'i gymharu â chamerâu cylch-cyfyng sefydlog neu gamerâu a wisgir ar y pen.

Mae'r system yn cynnwys dau gamera sydd wedi'u gosod gefngefn bob ochr i'r polyn croesi. Anfonir lluniau o'r camerâu i ficro-recordyddion fideo yn y polyn ei hun. Rheolir a gyrrir yr uned o ddarn gafael y polyn a bydd microffonau'n recordio sain leol.

I gael gwybod rhagor, cysylltwch â Lee Fairbrother ar 0845 337 3073.

Diogelwch Bysiau Mini

Diogelwch Bysiau Mini – ymgyfarwyddwch â'r Cod Ymarfer newydd



Mae dyletswydd ar bob un sy'n rhedeg gwasanaeth bysiau mini i gludo teithwyr i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn ddiogel.

Nod dogfen newydd yn 2008, **Minibus Safety: A Code Of Practice**, yw helpu cyrff sy'n berchen ar fysiau mini, yn eu hurio neu'n eu prydlesu i gynnig gwasanaeth diogel, effeithiol ac effeithlon.

Mae hi wedi'i llunio ar gyfer y sawl sy'n berchen ar y bws mini, neu'n gyfrifol am ei redeg a'i reoli, sef y gyrrwr, rheolwr y ganolfan, yr ysgol (unigolyn enwebedig, pennaeth neu'r Corff Llywodraethol) neu arweinydd y grŵp. Nid yw wedi'i llunio ar gyfer gweithredwyr masnachol sy'n gorfod bod â thrwydded lawn gweithredydd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSV)

Dywed Canllawiau'r HSE, '**Driving at Work**' fod y gyfraith ynghylch iechyd a diogelwch yn gymwys i weithgareddau gwaith ar-y-ffordd ac y dylid rheoli'r risgiau'n effeithiol o fewn system iechyd a diogelwch.

Drwy gydol y Cod Ymarfer fe gyfeirir at amrywiol reoliadau statudol a dogfennau eraill.

Minibus Safety: A Code of Practice
Cliciwch i'w **phrynu ar-lein**

Gyrwyr yn Dechrau Blino ar ôl Cwta 80 Munud

H

Driving Gall gyrru am gwta 80 munud heb egwyl beri i fodurwyr fod yn berygl ar y ffordd, yn ôl ymchwil newydd.

Mae gwyddonwyr wedi darganfod bod gyrwyr nad ydyn nhw'n cymryd egwyl yn fynych yn adweithio'n arafach na'r rhai sy'n teithio fesul tipyn.

Ar gyflymderau traffordd, byddai adwaith arafach gyrwyr blinedig yn ychwanegu rhyw 25 troedfedd at eu pellter stopio, yn ôl cylchgrawn y New Scientist.

Dywed yr arbenigwyr ei bod hi'n ddigon hysbys bod blinder yn achos damweiniau traffig, ond nad oes neb wedi ystyried pa mor hir y gall rhywun yrru cyn i hynny amharu'n ddifrifol ar ei (h)amser adweithio. Rhoddodd Jiun-Ren Hwang, yn y Brifysgol Ganolog Genedlaethol yn Jhongli, Taiwan, 30 o ddynion 20-26 oed mewn efelychydd gyrru ac anfon pob un ohonynt ar "daith" o 90 munud.

Ar ôl rhyw 80 munud, roedd eu hamserau adweithio wedi cynyddu 0.3 eiliad o'u cymharu â'u hamserau yn ystod rhan gynharaf y daith.

www.newscientist.com

Pen-blwydd cyntaf cosbau llymach am ddefnyddio ffonau symudol: 90% yn cytuno bod defnyddio ffôn yn amharu ar eich gyrru

Yn ôl ymchwil newydd a gyhoeddwyd flwyddyn ar ôl cyflwyno'r cosbau llymach am ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru, barn tri-chwarter o bobl yw bod gyrwyr sy'n gwneud hynny yn peryglu eu diogelwch hwy a diogelwch pobl eraill yn ddiangen.

Dangosodd yr ymchwil – a ddadlennwyd heddiw gan y Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd, Jim Fitzpatrick – fod 90% o'r cyhoedd o'r farn bod defnyddio ffôn wrth yrru yn amharu ar yrru'r sawl sy'n ei ddefnyddio.
Ar 27 Chwefror 2007 cyflwynodd y Llywodraeth gosb newydd a llym, sef tri phwynt cosb, i yrwyr a gaiff eu dal yn defnyddio ffôn yn eu llaw, a chodwyd y ddirwy o £30 i £60. Mae arolwg o heddluoedd Cymru a Lloegr yn dangos i 185,000 o yrwyr gael eu dal yn defnyddio ffonau llaw yn 2007, ac mae hynny'n dangos ymrwymiad yr heddlu i daclo'r arfer peryglus hwn.

Ar 1 Chwefror, ac i ddathlu pen-blwydd cyntaf y gosb newydd, fe lansiwyd ymgyrch PWYLLWCH!, a fydd yn costio £1.5m, i dynnu sylw at beryglon defnyddio ffôn symudol wrth yrru. Mae'n cynnwys hysbysebion teledu, hysbyseb radio newydd, a gêm firaol newydd ar y we.

Meddai Jim Fitzpatrick:
"Neges ddigon syml – peidiwch â defnyddio ffôn symudol wrth yrru. Os gwnewch chi hynny, byddwch chi bedair gwaith yn fwy tebygol o fod mewn gwrthdrawiad, a dydy galwad ffôn ddim yn werth y risg.
"Dyna pam y cynyddon ni'r gosb am ddefnyddio ffôn symudol yn anghyfreithlon wrth yrru i dri phwynt cosb a dirwy o £60. Flwyddyn yn ddiweddarach, rwy'n falch iawn o weld bod y mwyafrif llethol o bobl yn sylweddoli mai peth peryglus yw defnyddio ffôn symudol wrth yrru.

"Ond mae gormod o bobl yn dal i'w rhoi eu hunain ac eraill mewn perygl er mwyn gwneud galwad ffôn. Rwy'n gobeithio y bydd pen-blwydd cyntaf y cosbau llymach am ddefnyddio ffôn symudol yn atgoffa pob gyrrwr i ddiffodd y ffôn cyn dechrau gyrru neu i fynd i'w bost llais neu i'w phost llais a gwrando ar y negeseuon yn ddiweddarach."

Mae'r ymchwil ar gael ar Wefan Rhwydwaith Newyddion y Llywodraeth: cliciwch yma

Cyngor Newydd ynghylch Tynnu Sylw Gyrwyr – taflen i'w llwytho i lawr am ddim!

Mae llawer o sylw wedi'i roi i'r ffaith bod defnyddio ffôn symudol wrth yrru yn tynnu sylw'r gyrrwr, ond mae ymchwil hefyd yn dangos mwy a mwy am beryglon sefyllfaoedd lle bydd gyrwyr yn ceisio gwneud sawl peth yr un pryd, a bod hynny'n cyfrannu i ddamweiniau ar y ffyrdd.

Mae RoSPA wedi cynhyrchu **taflen ffeithiol am ddim** am Dynnu Sylw Gyrwyr sy'n esbonio hyn yn ogystal â'r gwahanol ffyrdd y caiff sylw ei dynnu, ac effeithiau hynny.

Yn y daflen ffeithiau hefyd cewch chi **ystadegau am ddamweiniau** a chyngor ymarferol ynghylch cwtogi ar y siawns y bydd tynnu sylw gyrrwr yn achosi damwain.

Ewch i'n gwefan i gael yr **adnodd di-dâl** hwn.

Diogelwch Cerddwyr yn Ewrop

Rhaid gwneud ffyrdd Ewrop yn fwy diogel i gerddwyr, yn ôl astudiaeth newydd a gefnogwyd gan Sefydliad yr FIA.

Mae arolwg EuroTest o 10 gwlad yn Ewrop yn dangos bod angen rhagor o weithredu i gwtogi ar nifer y marwolaethau, yn enwedig ar groesfannau i gerddwyr. Norwy sydd â'r record waethaf o ran diogelwch ei chroesfannau i gerddwyr, sef 3.7 o farwolaethau am bob miliwn. Yna daw'r Eidal (3.4) a'r Swistir (3.0).
Yn gyffredinol, Sbaen sydd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau ymhlith cerddwyr, sef 15.7 marwolaeth am bob miliwn. Yr Eidal a'r Deyrnas Unedig ddaw nesaf (11.5 marwolaeth/miliwn) ac yna Awstria (10.9) a Gwlad Belg (10.3).
Mae'r astudiaeth yn dangos mai yn yr Iseldiroedd y mae'r ffyrdd mwyaf diogel i gerddwyr. Yma, does ond 0.6 marwolaeth am bob miliwn ar groesfannau i gerddwyr, a 4.0 y filiwn ar rannau eraill o'r ffordd.
Cewch y manylion llawn yma.

Goleuadau ar Geir yn ystod y dydd i fod yn Orfodol

Caiff goleuadau dydd awtomatig eu gosod ar bob car newydd cyn pen pedair blynedd wrth i Lywodraeth Prydain gydymffurfio â chyfarwyddeb gan yr Undeb Ewropeaidd.

Er bod y Llywodraeth wedi gwrthwynebu'r syniad hwn yn y gorffennol am y byddai defnyddio goleuadau yn ystod y dydd yn cynyddu'r defnydd o danwydd ac yn cynyddu allyriadau, mae hi'n awr wedi cyfaddef na all hi wrthwynebu deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd.

Wrth ymateb i gwestiwn Seneddol, dywedodd y Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd, Jim Fitzpatrick, fod y Deyrnas Unedig wedi dadlau'n llwyddiannus yn erbyn gorfodi gyrwyr cerbydau sy'n bod yn barod i ddefnyddio'u prif lampau yn ystod y dydd.

"Ond o ddechrau 2011 ymlaen, bydd rhaid gosod lampau rhedeg pwrpasol ar bob math newydd o gar teithwyr a faniau ysgafn yn unol â'r gyfarwyddeb Ewropeaidd berthnasol. Erbyn haf 2012, bydd yn rhaid gosod y rheiny ar bob cerbyd newydd."

Dywed y Comisiwn Ewropeaidd nad yw'r goleuadau'n cynyddu ond 0.3% ar y tanwydd a ddefnyddir, a hynny am eu bod yn defnyddio bylbiau ar wahân sy'n llai disglair na phrif lampau.

Cewch y manylion llawn yma.

"Cyclists and Lorries" – Ffilm sy'n Rhad ac am Ddim

Adnoddau Di-dâl am Ddiogelwch ar y Ffyrdd i Feicwyr

Bellach, mae gwefan RoSPA yn cynnwys ffilm ddi-dâl y gallwch chi ei gwylio ar-lein. Mae'n dangos y peryglon sy'n codi wrth i gerbyd mawr droi i'r chwith wrth gyffordd os bydd beiciwr (a all hefyd fod yn troi i'r chwith neu'n mynd yn syth ymlaen) wrth ochr fewnol y cerbyd.

Mae'r ffilm, sydd wedi'i chynhyrchu gyda chymorth CEMEX, yn para rhyw 6 munud a gallwch chi ei gwylio hi **yma**.

Cysylltwch â'r Golygydd

Hawlfraint © 2008 gan RoSPA Cymru – Cedwir Pob Hawl.

Golygydd: Steve Baker, RoSPA
sbaker@rospa.com

02920 250 600